



Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain
Nicolas

Adroddiad Gwrthwynebu

Ar y cynnig i:

- **Newid ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 4-11 oed i 3-11 oed a sefydlu dosbarth meithrin sy'n cynnwys 48 o leoedd rhan-amser o fis Medi 2021**
- **Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 126 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021.**

Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille.

Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.

Cysylltwch â ni ar 01446 760239 i drefnu hyn.

Cynnwys

Cefndir	3
Adroddiad Ymgynghori	3
Hysbysiad Statudol	3
Gwrthwynebiadau i'r cynnig	4
Casgliad	12
Argymhellion	13
Atodiad 1	14

Cefndir

Cynhaliodd corff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas ymarfer ymgynghori ar y cynnig rhwng 18 Mawrth 2019 a 3 Mai 2019. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgynghoreion rhagnodedig ynghylch y cynnig i ad-drefnu ysgolion a oedd yn cael ei roi gerbron dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac y cyfeirir ato fel newid a reoleiddir:

- Newid ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 4 i 3 gan gynnwys 48 o leoedd meithrin rhan-amser
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 126 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021.

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru fel a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhoddodd gyfle i ymgynghoreion rhagnodedig yn ogystal ag aelodau o'r gymuned leol ddysgu am y cynnig ac i'r corff llywodraethu glywed barn pawb sydd â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, cafwyd 27 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 3 Mai 2019. O'r cyfanswm o 27 o ymatebion unigol a gafwyd, roedd 22 o blaid y cynnig a 5 yn ei wrthwynebu. Cafodd yr ymatebion eu cyhoeddi yn yr adroddiad ymgynghori.

Adroddiad Ymgynghori

Cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori yn dilyn yr ymarfer ymgynghori. Cafodd yr adroddiad ymgynghori ei ystyried gan y corff llywodraethu ar 23 Mai 2019.

Hysbysiad Statudol

Yn dilyn ystyried yr adroddiad ymgynghori ar 23 Mai 2019, penderfynodd y corff llywodraethu fwrw ymlaen â'r cynnig a rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar y cynnig ar 26 Mehefin 2019 am gyfnod o 28 diwrnod i roi cyfle ar gyfer gwrthwynebiadau. Daeth cyfnod yr hysbysiad statudol i

ben ar 24 Gorffennaf 2019.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar wefan yr ysgol a Chyngor Bro Morgannwg (<http://www.stnicholascwprimary.co.uk/consultation/> a <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Consultations/Expanding-St-Nicholas-CIW-Primary.aspx>) ac fe'i gosodwyd ym mhrif fynedfeydd yr ysgol. Dosbarthwyd copïau o'r hysbysiad i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, llywodraethwyr ac aelodau o staff, yn ogystal ag ymatebwyr a oedd yn dymuno cael eu hysbysu. Cafodd yr holl sefydliadau ac ymgynghoreion eraill yr oedd yn ofynnol ymgynghori â hwy dan God Trefniadaeth Ysgolion 2013 gopi o'r llythyr a'r hysbysiad fel atodiad wrth y neges e-bost yn ogystal â dolen i'r hysbysiad ar y wefan.

Lle ceir gwrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol, rhaid cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny.

Gwrthwynebiadau i'r Cynnig

Cafodd y corff llywodraethu 47 o wrthwynebiadau unigol erbyn dyddiad cau'r hysbysiad statudol. Ceir crynodeb o'r themâu a materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr a'r ymateb gan Gyngor Bro Morgannwg yn Atodiad A. Ceir copi o'r adroddiad ymgynghori yn Atodiad B a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn Atodiad C.

Trefnwyd fod yr holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ar gael i aelodau'r corff llywodraethu i gael eu hystyried ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Thema gwrthwynebu 1: Traffig, mynediad a pharcio

Mynegodd ymatebwyr bryderon y byddai ehangu capasiti'r ysgol yn arwain at fwy o dagfeydd yn yr ardal, ac y byddai hyn yn achosi pryder difrifol ynghylch diogelwch ymhlith preswylwyr a disgyblion, yn rhannol oherwydd y diffyg palmentydd mewn rhannau o'r pentref. Yn gysylltiedig â'r mater hwn ceir pryderon ynghylch llygredd sŵn ac aer oherwydd y cynnydd posibl mewn traffig o amgylch safle'r ysgol yn ystod y broses adeiladu a defnydd yn y dyfodol. Mae preswylwyr yn pryderu'n arbennig am wrthdaro cynyddol ynglŷn â pharcio rhwng rhieni a defnyddwyr eraill y ffyrdd, mater sydd eisoes yn achosi anghyfleustra yn ystod oriau brig (rhwng 8am a 8:30am a 3pm a 3:40pm). Mae'r pryder mwyaf ynghylch mynediad yn ymwneud â mynediad ar gyfer cerbydau brys i strydoedd arbennig o gul os yw ceir wedi'u parcio'n peri rhwystr. Mae rhai ymatebion yn nodi y byddai'n anodd lledu'r ffyrdd oherwydd adeiladau preswyl a statws cadwraeth y pentref.

- Roedd **44** o wrthwynebiadau'n nodi anghyfleustra i breswylwyr a phryderon ynghylch traffig
- Roedd **42** o wrthwynebiadau'n nodi pryderon ynghylch traffig a oedd yn ymwneud â diogelwch
- Roedd **5** o wrthwynebiadau'n nodi anawsterau lledu ffyrdd oherwydd statws cadwraeth y pentref
- Roedd **3** gwrthwynebiad yn nodi cynnydd posibl mewn llygredd sŵn o ganlyniad i draffig a mwy o ddisgyblion
- Roedd **3** gwrthwynebiad yn nodi cynnydd posibl mewn llygredd aer o ganlyniad i draffig

Ymateb y Corff Llywodraethu i'r gwrthwynebiad a godwyd

Mae'r Corff Llywodraethu'n deall pryderon preswylwyr ynghylch yr effaith y byddai'r cynnig hwn yn ei chael ar draffig. Mae'n bwysig nodi bod yr ymgynghoriad dan sylw'n cael ei gynnal yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy'n canolbwyntio ar rinweddau addysgol cynnig. Fodd bynnag, pe bai'r cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai proses statudol ar wahân yn dilyn i archwilio pryderon o ran cynllunio sy'n cynnwys traffig, mynediad a pharcio er mwyn rhoi caniatâd cynllunio.

Byddai asesiad trafniadaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer adeilad newydd yr ysgol. Byddai hwn yn asesu'r effaith ar y seilwaith lleol ac yn cynnwys dadansoddiad llwybr ysgubedig i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth gyfredol ar hygyrchedd ar gyfer yr holl wasanaethau brys. Byddai'r asesiad trafniadaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a ganfuwyd. Byddai'r corff llywodraethu'n cydweithio'n agos gyda Thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor trwy gydol y broses ddylunio.

Byddai'n rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer y dyluniad terfynol. Mae'r broses gynllunio'n cynnwys ymgynghoriad statudol â phreswylwyr lleol. Yn gyntaf, mae'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio yn caniatáu i breswylwyr ddarparu adborth ar y dyluniad arfaethedig, yn ogystal â'r asesiad trafniadaeth, ar gyfer y contractwr. Wedyn byddai dyluniadau terfynol yn gorfod mynd trwy'r broses gynllunio ffurfiol. Byddai preswylwyr lleol yn cael eu hysbysu ynghylch y cais cynllunio a byddent yn gallu cyflwyno adborth a fyddai'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

Byddai'r Corff Llywodraethu'n cydweithio'n agos gyda Thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor a'r contractwr fel bod y gwaith i godi adeilad newydd yr ysgol ar y safle presennol yn tarfu gyn lleied â phosibl. Byddai cyfyngiadau ar ddanfôn deunyddiau yn ystod oriau brig i gyfyngu ar yr effaith. Mae'r Cyngor wedi hysbysu bod logisteg y safle'n cael ei hasesu fel rhan o'r broses dendro. Byddai cynlluniau logisteg adeiladu'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses gynllunio hefyd.

Byddai'r Corff Llywodraethu hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r Cyngor i roi mesurau ar waith i leihau tagfeydd i'r eithaf a rheoli mynediad diogel at y safle yn ystod y defnydd ohono. Yn flaenorol, mae nifer o fesurau wedi cael eu cyflwyno, gan gynnwys:

- Darparu gwasanaeth bysiau mini gan yr ysgol
- Cyflwyno clwb brechwast
- Presenoldeb staff wrth y gât cyn ac ar ôl ysgol

Un o'r blaenoriaethau allweddol wrth ddatblygu'r cynnig oedd dileu'r angen am rannu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas rhwng dau safle. Ar hyn o bryd, caiff y disgyblion lleiaf eu haddysgu mewn adeilad ar wahân. Nod y cynnig yw mynd i'r afael â phryderon preswylwyr ynghylch diogelwch plant bach sy'n cerdded ar ffordd heb balmentydd. Byddai addysgu'r holl ddisgyblion mewn un adeilad yn datrys y problemau presennol gyda chludo disgyblion rhwng safleoedd, sydd yn ei dro'n gostwng nifer yr achlysuron pan fo disgyblion yn cerdded ar ffyrdd heb balmentydd.

Thema gwrthwynebu 2: Dylai'r ysgol symud i safle newydd

Mae hyn yn gysylltiedig â'r gwrthwynebiad a godwyd uchod, ac roedd y mwyafrif o'r gwrthwynebiadau gan breswylwyr lleol yn ymwneud â phryderon ynghylch addasrwydd y safle presennol o ran mynediad ac yn awgrymu ystyried safle arall.

- Roedd **40** o wrthwynebiadau'n nodi y dylid ystyried safle newydd ar gyfer yr ysgol

Ymateb y Corff Llywodraethu i'r gwrthwynebiad a godwyd

Byddai'r Corff Llywodraethu'n parhau i weithio gyda'r Cyngor i archwilio opsiynau eraill o ran safle ar gyfer adeilad newydd yr ysgol. Mae'r Corff Llywodraethu yn deall bod cyfle posibl ar gyfer safle newydd wedi dod i'r amlwg ac mae dichonoldeb hyn yn cael ei bennu ar hyn o bryd ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai ymgynghoriad ynghylch y cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol o 126 i 210 o leoedd yw hwn ac i gynyddu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11. Byddai cynnig i newid y safle'n rhan o ymgynghoriad pellach ar yr amod bod y safle arfaethedig dros 1 filltir (1.60934km) o'r safle presennol. Pe bai'r safle arfaethedig o fewn 1 filltir i'r fynedfa bresennol, ni fyddai'n ofynnol cynnal ymgynghoriad ychwanegol.

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas wedi'i lleoli ar safle ag arwynebedd o oddeutu 12,034m². Mae Bwletin Adeiladu 99: fframwaith adeiladu ar gyfer prosiectau ysgolion cynradd (BB99) yn ei gwneud yn ofynnol bod ag arwynebedd safle gros rhwng 10,024m² ac 11,224m² ar gyfer ysgol gynradd â 210 o leoedd gydag uned feithrin. Byddai'r safle presennol yn mynd y tu hwnt i'r gofynion yn BB99. Felly, ni chafodd y posibilrwydd o brynu safle arall ei archwilio yn y cynnig cychwynnol oherwydd y costau cyfalaf cysylltiedig. O ystyried bod arwynebedd y safle presennol uwchlaw'r gofynion yn BB99, efallai na fyddai safle arall yn darparu

man awyr agored mor fawr ar gyfer hamdden, dysgu yn yr awyr agored a defnydd gan y gymuned.

Mae'n werth nodi mai'r rheswm dros y cynnig yw er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar ac yn y dyfodol sydd yn yr arfaeth ar gyfer Sain Nicolas a Thresimwn. Ni ddyrannwyd tir ar gyfer ysgol fel rhan o'r cytundebau Adran 106; fodd bynnag, fe gafodd y Cyngor gyfraniadau ariannol ar gyfer addysg.

Thema gwrthwynebu 3: Cyfathrebu

Roedd nifer o breswylwyr yn gwrthwynebu'r ffaith na chysylltwyd yn uniongyrchol â hwy yn ystod y broses ymgynghori. Nododd gwrthwynebiadau preswylwyr hefyd fod gallu cael mynediad at yr wybodaeth ar wefannau'r ysgol a'r Cyngor yn annigonol gan na fyddai rheswm gan breswylwyr dros wirio'r platfformau hynny. Mae preswylwyr wedi nodi bod cynghorwyr cymuned yn bresennol yn y sesiynau galw heibio a gynhaliwyd yn yr ysgol yn ystod y cyfnod ymgynghori ond na chafodd yr wybodaeth hon ei chyfleu i'r preswylwyr.

- Roedd **36** o wrthwynebiadau'n nodi y dylid bod wedi cysylltu'n uniongyrchol â phreswylwyr
- Roedd **35** o wrthwynebiadau'n nodi bod y dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd gan y Corff Llywodraethu (yr ysgol), y Cyngor, a'r cyngor cymuned yn annigonol

Ymateb y Corff Llywodraethu i'r gwrthwynebiad a godwyd

Fel a nodir uchod, cafodd yr ymgynghoriad ynghylch y newidiadau a reoleiddir sydd yn yr arfaeth ei gynnal yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac nid yr ymgynghoriad cynllunio yw hwn. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ag ymgynghoreion rhagnodedig, fel a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Nid yw preswylwyr lleol yn cael eu nodi gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel ymgynghoreion rhagnodedig. Fodd bynnag, mae'r cyngor cymuned wedi'i gynnwys yn y rhestr o ymgynghoreion rhagnodedig ac anfonwyd y dogfennau perthnasol ato. Gellir gweld y rhestr lawn o ymgynghoreion rhagnodedig a nodir gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 yma:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/school-organisation-code-second-edition.pdf>

Cafodd y ddogfen ymgynghori a'r hysbysiad statudol eu cyhoeddi ar wefan yr ysgol a Chyngor Bro Morgannwg, fe'u dosbarthwyd i ymgynghoreion rhagnodedig, a chawsant eu harddangos ar hysbysfwrdd yr ysgol.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori i roi'r cyfle i aelodau'r gymuned ofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cynnig. Rhoddwyd manylion y sesiynau yn y ddogfen

ymgyngori a rhoddwyd cyhoedduswydd eang iddynt trwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Trefnwyd y sesiynau ymgynghori canlynol:

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Sesiwn galw heibio i Rieni a'r Gymuned	Dydd Iau 4 Ebrill 8.45am – 9.45am 3pm – 4pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Cyfarfod Llywodraethwyr	Nos Iau 4 Ebrill 6pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Cyfarfod staff	Dydd Llun 8 Ebrill 3.30pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Sesiwn galw heibio i Rieni a'r Gymuned	Dydd Llun 8 Ebrill 4pm – 6.30pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Sesiwn ymgysylltu â disgyblion	Dydd Gwener 12 Ebrill	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG

Roedd rhieni, preswylwyr ac aelodau o Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn bresennol yn y sesiynau galw heibio hyn. Cynhaliwyd sianeli cyfathrebu agored trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Cyn dyddiad cau'r ymgynghoriad fe ymatebodd y Cyngor a'r Corff Llywodraethu i nifer o ymholiadau gan breswylwyr lleol.

Fel a nodwyd yn yr adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 9 ymateb (33%) gan breswylwyr yn Sain Nicolas. O'r 9 ymateb hwnnw gan breswylwyr lleol, roedd 44% o blaid y cynnig. Yn dilyn adborth ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cafodd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ei ddiweddarau i adlewyrchu pryderon lleol (caiff manylion llawn y newidiadau eu nodi yn yr [adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad](#)).

Mae'r Corff Llywodraethu wedi'i argyhoeddi ei fod wedi dilyn y gofynion statudol a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer ymgynghori ynghylch y cynnig a oedd yn cynnwys ymgynghori â disgyblion. Mae'r broses ymgynghori wedi rhoi digon o reswm a gwybodaeth i'w gwneud yn bosibl rhoi ystyriaeth ac ymateb deallus.

Pe bai'r cynnig yn symud ymlaen i'r cam nesaf byddai cais cynllunio ffurfiol yn cael ei gyflwyno ar gyfer adeilad newydd yr ysgol. Byddai preswylwyr lleol yn cael eu hysbysu ynghylch y cais hwn yn uniongyrchol a byddent yn gallu ymateb gydag unrhyw bryderon.

Mae'r Corff Llywodraethu yn gwerthfawrogi barn preswylwyr, staff, rhieni a rhanddeiliaid eraill a chan hynny mae'n darparu cyfleoedd i'w cynnwys yn ystod pob cam o'r broses. Er enghraifft, yn ystod y cam dylunio, byddai tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cwrdd yn aml â rhanddeiliaid yr ysgol ar gyfer sylwadau ac yn cynnal

sesiynau galw heibio a oedd yn agored i'r gymuned cyn cyflwyno cais cynllunio. Yn ystod y gwaith adeiladu byddai'r adeiladwyr a benodir yn cynnal sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ffurf ymweliadau â'r safle a gweithdai gyda disgyblion. Byddai cyfleoedd hefyd i grwpiau yn y gymuned leol wneud cais am roddion mewn ffyrdd eraill, hyfforddiant sgiliau digidol, a chyngor ynghylch llywodraethu o safbwynt manteision cymunedol y datblygiad.

Byddai'r contractwr hefyd yn cydweithio'n agos gyda phreswylwyr lleol i sicrhau bod y gwaith i adeiladu'r ysgol newydd yn tarfu gyn lleied â phosibl, a fyddai'n cynnwys cyfyngu ar oriau danfon deunyddiau.

Thema gwrthwynebu 4: Radon

Roedd **8** o wrthwynebiadau'n cynnwys pryderon ynghylch cysylltiad â nwy radon a chostau lliniaru'r risg hon.

Ymateb y Corff Llywodraethu i'r gwrthwynebiad a godwyd

Mae'r lefelau nwy radon yn debyg ledled ardal Sain Nicolas a gellir ymdrin â hwy mewn nifer o ffyrdd. Yn nodweddiadol gosodir pilen sy'n gwrthsefyll nwy radon o fewn llawr adeiladau newydd er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Byddai'r gofyniad hwn yn berthnasol i unrhyw ddatblygiad yn yr ardal.

Thema gwrthwynebu 5: Mannau agored a mynediad at lwybrau troed cyhoeddus

Roedd **3** gwrthwynebiad yn ymwneud â phryderon ynghylch maint y manau agored a fyddai ar gael i'r cyhoedd ar ôl cwblhau adeilad newydd yr ysgol a mynediad at y llwybr troed ar bwys safle'r ysgol.

Ymateb y Corff Llywodraethu i'r gwrthwynebiad a godwyd

Nid yw'r Corff Llywodraethu yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r trefniant sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer defnydd o gae'r ysgol gan y gymuned. Mae'r llwybr troed cyhoeddus y tu allan i derfynau safle'r ysgol ac felly ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio arno.

Byddai manau allanol cyfyngedig yn ystod y gwaith i godi'r adeilad newydd gan y byddai'r ysgol bresennol yn dal i fod yn weithredol trwy gydol y cyfnod. Efallai y bydd ôl troed yr ysgol newydd yn fwy nag ôl troed adeilad presennol yr ysgol er mwyn cynnal y capasiti ychwanegol a allai arwain at ostyngiad ar y cyfan yn y manau awyr agored. Fodd bynnag, effaith fach fyddai hon a byddai'r manau awyr agored yn dal i gydymffurfio â safonau BB99. Byddai'r cyfleusterau allanol yn cael eu gwella

fel rhan o'r datblygiad, gan arwain at fannau allanol o ansawdd gwell gan gynnwys ardaloedd chwaraeon a chynefinoedd. Byddai adeilad presennol yr ysgol yn cael ei ddymchwel ar ôl agor adeilad newydd yr ysgol. Byddai nodweddion naturiol o werth uchel ar y safle'n cael eu cynnal a'u gwella lle y bo'n briodol; er enghraifft, perthi ac ardaloedd natur presennol. Hefyd, byddai cyfleusterau mewnol ar gael ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a chyfarfodydd trwy drefnu gyda'r ysgol a'r Corff Llywodraethu.

Thema gwrthwynebu 6: Sensitifwydd tuag at statws cadwraeth y pentref ac agoswydd at gymdogion

Roedd **2** wrthwynebiad yn awgrymu y dylai mesurau i leihau sŵn, effaith weledol, a mesurau parcio yn y dyluniad fod yn ystyriol o statws cadwraeth y pentref ac agoswydd anheddau cyfagos. Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys dylunio adeilad ag un llawr sydd wedi'i osod yn bellach yn ôl ar y safle na'r ôl troed presennol a gosod dull sgrinio i leihau'r effeithiau posibl o ran sŵn ac o safbwynt gweledol.

Ymateb y Corff Llywodraethu i'r gwrthwynebiad a gafwyd

Er bod hyn yn fwy priodol i'r cam cynllunio, mae'r Corff Llywodraethu yn amcanu at integreiddio dyluniad yr adeilad ag ystyriaethau lleol ar adeg gynnar trwy agweddau ar y dyluniad; megis y dewis o ddeunyddiau a dulliau lleddfu acwstig. Byddai tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn archwilio'r holl opsiynau o ran dyluniad yr adeilad sy'n briodol ar gyfer diwallu anghenion addysgol ac mae adeilad ag un llawr yn un o'r opsiynau i'w hystyried. Byddai perthi a llystyfiant arall yn cael eu cynnal a'u gwella lle y bo'n briodol fel rhan o liniaru effeithiau sŵn a gweledol. Byddai adeilad yr ysgol yn cydymffurfio â Bwletin Adeiladu 93, 'Dyluniad Acwstig Ysgolion: Safonau Perfformiad'. Byddai'r contractwr hefyd yn cydweithio'n agos gyda phreswylwyr lleol i sicrhau bod y gwaith i adeiladu'r ysgol newydd yn tarfu gyn lleied a phosibl, a fyddai'n cynnwys cyfyngu ar oriau danfon deunyddiau. Byddai cyfleusterau parcio ar y safle'n cael eu darparu gan ddefnyddio Safonau Parcio Cyngor Bro Morgannwg fel canllaw.

Thema gwrthwynebu 7: Ni ddilynwyd y broses gynllunio

Gwnaeth **1** gwrthwynebiad y sylw nad oedd y broses ymgynghori wedi dilyn y weithdrefn gynllunio (trwy beidio â chwblhau asesiad risg traffig).

Ymateb y Corff Llywodraethu i'r gwrthwynebiad a godwyd

Ymgynghoriad ynghylch y cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol o 126 i 210 o leoedd ac i

gynyddu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11 yw hwn. Fe wnaeth y broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae canlyniad yr ymgynghoriad statudol hwn yn ddibynnol ar rinweddau addysgol y cynnig hwn.

Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn, byddai nifer o arolygon o'r safle'n cael eu cwblhau wedyn fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer adeilad newydd yr ysgol; gan gynnwys asesiad trafndiaeth llawn. Byddai'r asesiad trafndiaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru effeithiau negyddol a ganfuwyd. Byddai'r asesiad trafndiaeth yn cael ei gynnal gan ystyried capasiti arfaethedig yr adeilad, sef 210 o ddisgyblion o oedran statudol a 48 o leoedd meithrin rhan-amser (24 o leoedd cyfwerth ag amser llawn).

Byddai'n rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer y dyluniad terfynol. Mae'r broses gynllunio'n cynnwys ymgynghoriad statudol â phreswylwyr lleol. Pe bai'r cynnig hwn yn symud ymlaen i'r cam nesaf, byddai'r broses ymgynghori cyn ymgeisio am ganiatâd cynllunio yn rhedeg o fis Chwefror 2020 tan fis Ebrill 2020.

Cam	Dyddiad(au)
Cyflwyno adroddiad gwrthwynebu i Gabinet y Cyngor ar gyfer penderfyniad terfynol	Medi 2019
(Os cymeradwyir y cynnig) proses dendro i benodi contractwr	Medi 2019 – Ionawr 2020
Ymgynghori cyn ymgeisio am ganiatâd cynllunio	Chwefror 2020 – Ebrill 2020
Cyflwyno cais cynllunio	Ebrill 2020
Penderfyniad cynllunio	Mehfin 2020
(Os cymeradwyir y cais cynllunio) dechrau adeiladu ar y safle	Gorffennaf 2020
Gwaith adeiladu i fod i ddod i gael ei gwblhau	Gorffennaf 2021
Ysgol yn symud i mewn i'r adeilad newydd	Medi 2021
Cwblhau'r safle	Gorffennaf 2022

Gallai'r dyddiadau hyn newid.

Thema gwrthwynebu 8: Materion diogelwch

Roedd 1 gwrthwynebiad yn nodi pryderon ynghylch y trefniadau diogelwch yn yr

ysgol yng ngoleuni agor y cyfleusterau i ddefnyddwyr allanol.

Ymateb y Corff Llywodraethu i'r gwrthwynebiad a godwyd

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn darparu nifer o wasanaethau ar gyfer y gymuned leol sydd â'r potensial i gael eu gwella trwy'r datblygiad arfaethedig. Fel a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, mae'r ward berthnasol ar gyfer Sain Nicolas (Gwenfô 1) ymhlith y 10-20% o ACEHloedd mwyaf amddifadus o ran mynediad at wasanaethau. Gellid gwella hyn trwy gynyddu mynediad cymunedol at y cyfleusterau newydd arfaethedig; megis darpariaeth chwaraeon a mannau cyfarfod. Fodd bynnag, byddai trefniadau'n ystyried materion diogelu a diogelwch y cyhoedd. Byddid yn ymgynghori â Heddlu De Cymru fel rhan o'r broses ddylunio a byddai swyddog 'Dylunio i Atal Troseddau' yn darparu adborth ar y dyluniad arfaethedig. Byddai trefniadau diogelwch o fewn yr adeilad yn cael eu gwella o'i gymharu â'r ddarpariaeth gyfredol. Nid yw'r Corff Llywodraethu yn cynnig unrhyw newidiadau i'r trefniant sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer defnydd o gae'r ysgol gan y gymuned.

Thema gwrthwynebu 9: Ychwanegu darpariaeth feithrin

Nododd 1 gwrthwynebiad fod ychwanegu darpariaeth feithrin yn gam yn rhy bell heb fod angen gan bod y cynnydd yng nghapasiti'r ysgol yn fwy na 100%.

Ymateb y Corff Llywodraethu i'r gwrthwynebiad a godwyd

Mae'r cynnig yn un i gynyddu capasiti'r ysgol o 126 i 210 o leoedd ac i gynyddu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11. Mae'r newid o 126 o leoedd ysgol statudol i 210 o leoedd ysgol statudol yn gynydd o 66.67% (84 o leoedd). Byddai'r ddarpariaeth feithrin ychwanegol yn cynnwys 48 o leoedd meithrin rhan-amser. Gan bod y lleoedd hyn wedi'u rhannu rhwng sesiynau bore a phrynhawn, mae hyn yn gyfwerth â 24 o leoedd llawn-amser. Mae hyn yn golygu cynnydd ar y cyfan o 126 o leoedd i 234 o leoedd (85.71%).

Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth feithrin gan yr ysgol, sy'n golygu bod peth wmbredd o amser yn cael ei dreulio'n integreiddio disgyblion derbyn i mewn i'r ysgol a bod disgyblion lleol posibl yn cael eu colli i ysgolion eraill pellach i ffwrdd sydd â darpariaeth feithrin. Byddai'r ddarpariaeth feithrin arfaethedig yn darparu dull cyson o 3-11 oed i hybu a thanategu parhad a dilyniant ar gyfer disgyblion, gan sicrhau ehangder a chydbwysedd ar draws y cwricwlwm. Byddai hefyd yn datblygu ethos a diwylliant yr ysgol mewn plant o oedran cynharach, gan arwain at berthnasoedd rhyngpersonol effeithiol a hunan-fri uwch.

Mae hefyd yn werth nodi y byddai'r cynnydd mewn capasiti'n gynyddu graddol gyda nifer derbyn yr ysgol yn newid o 18 i 30 o fis Medi 2021. Ni fyddai'r ysgol yn cyrraedd ei chapasiti llawn tan fis Medi 2028.

Casgliad

Mae'r Corff Llywodraethu yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion presennol a darpar ddisgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas. Byddai'r cynnig yn arwain at amgylcheddau dysgu ac addysgu'r 21^{ain} ganrif a fyddai'n hybu lles disgyblion a'u hagweddau tuag at ddysgu. Byddai seilwaith TGCh gwell yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu addasu i newidiadau i'r cwricwlwm yn y dyfodol. Fe ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad gan ddatgan fel a ganlyn: *'mae'r cynigydd wedi rhoi ystyriaeth gynhwysfawr i effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth'*. Dywedodd Estyn hefyd fod *'y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safonau cyfredol yr addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal'*.

Byddai'r cynnig hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu digon o leoedd ysgol. Mae gan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas gapasiti cyfyngedig ac mae gorâlwn dod yn fwy rheolaidd wrth i'r boblogaeth leol dyfu gyda datblygiadau tai ychwanegol.

Mae'r adeiladau presennol mewn cyflwr gwael ac mae gwaith cynnal a chadw parhaus yn gostus ac yn tarfu ar yr ysgol. Byddai adeilad newydd ar gyfer yr ysgol yn lleihau effaith y gwaith cynnal a chadw parhaus hwn ar referniw.

Mae'r Corff Llywodraethu'n nodi pryderon preswylwyr lleol ynghylch mwy o draffig a byddai'n cydweithio gyda Thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif i gyfyngu ar effaith hyn. Fel a nodir uchod, byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gynnal a byddai'n cael ei ystyried fel rhan o'r broses ddylunio. Byddai'n rhaid cyflwyno cais cynllunio i gael cymeradwyaeth i'r dyluniad terfynol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori'n ffurfiol â phreswylwyr lleol.

Argymhellion

Argymhellir:

1. Bod y Corff Llywodraethu'n ystyried yr adroddiad gwrthwynebu ynghyd â'r gwrthwynebiadau unigol a gafwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.
2. Bod y Corff Llywodraethu'n rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu
3. Bod y Corff Llywodraethu'n rhoi cymeradwyaeth i weithredu'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 4 i 3 a hynny'n cynnwys 48 o leoedd meithrin rhan-amser ac i gynyddu capasiti

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 126 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021.

4. Bod y Corff Llywodraethu'n cyfeirio'r Ddogfen Ymgynghori, yr Adroddiad Ymgynghori, yr Hysbysiad Statudol, yr Adroddiad Gwrthwynebu a Gwrthwynebiadau i'r Cyngor ar gyfer penderfyniad terfynol yn unol ag adran 51 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Atodiad 1

